# Cyngor Cymuned *NANTGLYN* Community Council

## (Cyfarfod Misol / Monthly Meeting)

| **Dyddiad a Lleoliad:-** | **Date & Location:-** |
|---|---|
| Dydd Mawrth Chwefror 4ydd, Capel Y Waen | Tuesday 4th February 2020, Capel Y Waen |
| **1. Presennol:-** | **1. Attended By:-** |
| Cadeirydd: Dona Jones<br>Cynghorwyr: Gwyn Bibby, Ioan Morris, Guy Lowe, Mari Jones, Sam Luhde-Thompson<br>Ymddiheiriadau: Candice Eden<br>Eraill: Nia Thomason (Clerc), | Chaired by: Dona Jones<br>Councillors present: Gwyn Bibby, Ioan Morris, Guy Lowe, Mari Jones, Sam Luhde-Thompson<br>Apologies: Candice Eden<br>Others present: Nia Thomason (Clerc) |
| **2 Datganiadau Diddordeb :** | **2 Declaration of Interest:** |
| DIM | NONE |
| **3 Derbyn cofnodion o'r pwyllgor diwethaf :** | **3 Approval of Previous meeting minutes:** |
| 3.1 Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir | 3.1 The minutes were confirmed as being correct |
| **4 Rhestr Gweithredoedd** | **4 Actions List** |
| 4.1 Adeilad Cymunedol –Daeth Helen o Cadwyn Clwyd i'r cyfarfod. Mae Cadwyn Clwyd yn cadw £10,000 i un ochr ar gyfer y darn gwaith nesaf yn y prosiect, mae Sam wedi cael £3,000 'match funding' gan Brenig Wind a fydd hwnnw yn mynd yn syth i Cadwyn Clwyd a byddan nhw yn rhoi y £7,000 arall i wneud £10,000 i gyd. Bydd Helen nawr yn helpu ni i greu 'gwahoddiad i ddyfynnu' gan osod allan popeth rydym ei angen allan o'r ddogfen, h.y opsiynau am adeilad newydd ac am adnewyddu y Church House, a costau am y ddau adeilad.<br><br>Nid yw'n bosib cael grant ar gyfer prynu tir, felly mae angen cysidro hyn a bydd rhaid codi arian neu cael benthyciad i brynu tir.<br><br>4.2 Bydeang – dim diweddariad<br><br>4.4 Defib yn y Waen – Mae'r cyfnod ymgynghori wedi cychwyn pythefnos yn ol. Mae preswylwyr y Waen wedi cwyno wrth BT bod y bocs yn pwyso i un ochor a bod y drws yn anodd i'w agor.<br><br>4.6 Gweithredoedd i gyd ar fynd | 4.1 Community Building – Helen from Cadwyn Clwyd attended the meeting. Cadwyn Clwyd still have the £10,000 total set aside for the next phase of the project and Sam has secured the £3,000 match funding from Brenig Wind which will be paid to Cadwyn Clwyd to secure the other £7,000 to make £10k total. Helen will now help us to draft an invitation to quote setting out everything that we need out of this document, i.e options for a new building and for renovating the Church House, and costs for both buildings.<br><br>It is not possible to get grants for purchasing land so we need to bear in mind that we would have to fundraise or even get a loan to buy land.<br><br>4.2 Broadband – No updates<br><br>4.3 Defib in the Waen – 90 day consultation period began 2 weeks ago. The Waen residents have complained to BT that the box is leaning and that the door is stuck.<br><br>4.4 All other actions ongoing |
| **5 Ceisiadau Cynllunio:** | **5 Planning Matters:** |
| 5.1 Dim | 5.1 None |
| **Cyllid/Taliadau:** | **6 Finances:** |

| Welsh | English |
|---|---|
| 6.1 Taliadau | **6.1** Payments |

Cyfrif Banc y Cyngor Cymuned

| Rhif Sec | Taladwy i | Swm |
|---|---|---|
| 100710 | Martin Ward | £8.28 |
| | | |

Derbyniadau – Cyfrif Banc y Cyngor Cymuned

| Talwyd Gan | Swm | Rheswm |
|---|---|---|
| | | |

Cyfrif Banc King George V Bank

| Rhif Siec | Taladwy i | Swm |
|---|---|---|
| | | |

6.2 Cyfriflenni Banc wedi ei weld gan y Cadeirydd.

6.3 Cronfeydd Ariannol wrth Gefn – cytunwyd bod yr arian sydd yn y cyfrif Business Money Manager yn HSBC yn cael ei gadw at brynu tir yn y dyfodol ac ar gyfer unrhyw welliannau sydd angen yn y fynwent.

Community Council Bank Account

| ChequeNo | Payable to | Sum |
|---|---|---|
| 100710 | Martin Ward | £8.28 |
| | | |

Receipts – Community Council Bank Account

| Payee | Sum | Reason |
|---|---|---|
| | | |

King George V Bank Account

| Cheque No | Payable to | Sum |
|---|---|---|
| | | |

6.2 Bank statements viewed by chair

6.3 Financial Reserves - it was agreed that the money held in the Business Money Manager account at HSBC should continue to be held mainly for future purchase of land or for any improvements necessary to the cemetery.

**7 Gohebiaeth**

7.1

**7 Correspondence**

7.1

**8 Unrhyw Fusnes Arall**

8.1 Cynllun Datblygu Lleol CSDd – 2018 – 2033. Mae darn o dir sydd yn perthyn i'r Eglwys sydd tu ol i'r Eglwys ac yn taro ar yr afon wedi ei ychwanegu i'r rhestr fel lle potensial ar gyfer datblygiad preswyl yn y dyfodol Cytunodd y Cynghorwyr nad oes unrhyw wrthwynebiad iddo fod ar y rhestr ar hyn o bryd.

8.2 Cyfarfod Cynllunio Bwlch Du – Fe aeth Guy i'r cyfarfod ar y safle ble oedd cyfle i swyddogion gael edrych o amgylch y lle. Aeth popeth yn iawn. Does gan y caban pren na'r melin wynt ganiatad cynllunio felly mae rhaid eu tynu i lawr. Mae si bod y caniatad cynllunio ar gyfer y ty wedi ei roi ers y cyfarfod yma.

8.3 Cais am lythyr o gymorth – Cafodd Nia alwad ffon gan Berwyn Evans o Lansannan sydd yn helpu i redeg prosiect i godi amgueddfa o hen bethau yn Llansannan. Nid oedd gan unrhywun wrthwynebiad i hyn a cytunwyd y gall Nia ysgrifennu llythyr o gymorth i fynd gyda eu cais i grant Gwynt Y Mor.

8.4 Nia i ofyn i Bodfari Env eto am dorri y gwrych ar y tu mewn i'r fynwent.

8.5 Golau tu allan i Church House – Ebost wedi ei dderbyn gan Joe Welch – gweler y Saesneg.

**8 Any other Business.**

8.1 DCC Local Development Plan – 2018 – 2033 Consultation on the Additional Candidate Sites. The piece of land belonging to the Church which sits by the river next to the Church has been put forward as a potential area for residential development in the future. The Community Councillors agreed that there was no objection to it being a potential site at present.

8.2 Bwlch Du Planning meeting – Guy attended the meeting where officers were able to have a look around. Everything went well. The log cabin and wind turbine have no planning permission so must be removed. It is believed that planning permission for development of the residential property has since been granted.

8.3 Request for letter of support – Phone call received from Berwyn Evans from Llansannan who is involved in a project to erect a museum of vintage agricultural implements etc in Llansannan. No one had any objections to this and it was agreed that a letter of support could be drafted for their application to the Gwynt Y Mor grant scheme.

8.4 Nia to ask Bodfari Env again to cut the cemetery hedge on the inside.

8.5 Street light outside Church House – email received from Joe Welch -

*With regards to the street lighting outside church house this is the response I have received..... let me know of any comments you may have:*

| | |
|---|---|
| 8.6 Problemau I adrodd i'r Cyngor :<br>◦ Dim | *Good afternoon*<br>*I have looked at the area and we currently have a light on an existing pole bracket on a Scottish power pole opposite the church so I'm unsure as to where you are referring to. Unfortunately Scottish Power no longer allow us to install lights to their poles so we would be unable to fit a new one. If you have anymore information and I can help further please let me know.*<br>*Many thanks Joanne*<br><br>8.6 The following problems are to be reported to the council :<br>• None |
| **9 Penderfyniadau Wedi eu Gwneud** | **9 Decisions Made** |
| 9.1 Adolygu Cronfeydd ariannol Wrth Gefn – cytunwyd i gadw yr arian yn y BMM HSBC i brynu tir neu ar gyfer unrhyw welliannau i'r fynwent. | 9.1 Review of Reserves – it was agreed that the money held in the BMM account at HSBC should be held mainly for future purchase of land or for any improvements necessary to the cemetery. |
| **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf :** | **Date and Venue of Next Meeting:** |
| Nos Fawrth, Mawrth 3ydd, Church House | Tuesday, March 3rd, Church House |